LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem: 14**

**Teitl:** Diweddariad ar Drefniadau Llywodraethu a Blaengynllun

| | |
|---|---|
| **Camau Gweithredu sy'n ofynnol** | I'w cytuno. Darperir yr adroddiad hefyd er gwybodaeth a sicrwydd. |
| **Amseru** | Arferol |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi a chefnogi'r amlinelliad o'r gwaith datblygu ar drefniadau llywodraethu sydd yn yr arfaeth ar gyfer y chwarter nesaf. |
| **Risg** | Fel corff sector cyhoeddus, mae'n hollbwysig bod Llais yn adolygu ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd yn gyson. Mae hyn yn sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â gofynion a fframweithiau cyfreithiol. Mae hefyd yn elfen bwysig o adroddiadau diwedd blwyddyn y sefydliad a datganiadau datgelu cyhoeddus. |
| **Cyllid** | Bydd rhai goblygiadau ariannol o weithredu'r adolygiadau llywodraethu a nodwyd a gwaith datblygu pellach yn effeithiol. Fodd bynnag, caiff hyn ei asesu a'i werthuso'n rheolaidd a chaiff ei ariannu o'r cyllidebau presennol. |
| **Amcan y cynllun blynyddol**<br>**Amcan y cynllun strategol**<br>**Amcan y cynllun 100 diwrnod** | Bydd y rhaglen arfaethedig o waith adolygu llywodraethu a datblygiadau yn galluogi ac yn hwyluso cyflawni amcanion y sefydliad mewn dull rheolaidd ac agored a cheisio sicrhau bod y Bwrdd a'r sefydliad yn parhau i ddatblygu a chyflawni ei rolau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol trwy lywodraethu sefydliadol da. |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** | Ddim yn berthnasol |
| **Cyfathrebu** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Yn Fewnol:** ein pobl ☒<br>**Yn Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Yn Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Clirio** | Mae'r papur hwn wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr. |

| | |
|---|---|
| **Trafodaethau neu benderfyniadau blaenorol** | Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar y penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd a'r dogfennau llywodraethu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd yn y cyfnodau datblygu a sefydlu. Mae'n bwysig gwneud y gwaith hwn i adolygu trefniadau llywodraethu a sicrwydd Llais yn dilyn y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu. |
| **Awdur Cyflwyno** | Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd |
| **Dyddiad** | 08-04-2024 |

**Cefndir**

Mae'n bwysig bod sefydliadau'n adolygu eu trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn gyson. Mae hyn yn arbennig o bwysig i Llais adolygu a datblygu ei fframweithiau llywodraethu ymhellach yn dilyn y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu.

Gall llywodraethu da ychwanegu gwerth at weithrediad a chyflwyniad sefydliadau a gall fod yn alluogwyr pwysig ar gyfer newid a datblygu. Mae'r byrddau gorau yn cwestiynu eu llywodraethu eu hunain yn barhaus. Trwy wneud hyn, gall sefydliadau gael a chadarnhau syniad clir o'u pwrpas a'u rolau, a deall ymhellach fod llywodraethu da er budd pawb. I Llais gellir dangos hyn trwy roi sicrwydd da i bobl Cymru ynghylch ei weithrediad er eu lles.

Mae Llais wedi cydnabod hyn ers ei sefydlu ac wedi ymrwymo i ddatblygu fframweithiau llywodraethu priodol a chymesur. Cydnabuwyd y bydd llywodraethu da yn galluogi Llais i adeiladu trefniadau cynaliadwy, galluogi dirprwyo awdurdod a gwneud penderfyniadau priodol ar y lefelau cywir a chynnig fframwaith datblygiadol i sicrhau bod Llais yn cyflawni ei gyfrifoldebau fel corff cyhoeddus.

O ganlyniad, mae Llais wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu ei ddulliau llywodraethu a sicrwydd ac mae wedi comisiynu a nodi ystod o waith adolygu. Bydd hyn yn cael ei symud ymlaen yn y misoedd nesaf a bydd yn cyfrannu at ddatganiadau adrodd a datgelu diwedd blwyddyn y sefydliad.

**Adolygiad allanol:** Yn gyntaf, comisiynodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr adolygiad allanol o drefniadau llywodraethu Llais. Amcanion yr adolygiad oedd asesu dull llywodraethu presennol y sefydliad yn erbyn gofynion

deddfwriaethol a nodi elfennau priodol fframwaith llywodraethu a sicrwydd ar gyfer Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Gwnaethpwyd hyn i sicrhau bod trefniadau llywodraethu Llais mor gadarn â phosibl, ond hefyd nad oedd bylchau yn y dull presennol. Rhagwelwyd y byddai hefyd yn nodi unrhyw feysydd i'w datblygu ymhellach gan gydnabod bod Llais yn dal i fod yn sefydliad sy'n cael ei ddatblygu. Ystyriwyd ei bod yn briodol adolygu trefniadau ar ôl blwyddyn lawn o weithredu.

Darparodd Eversheds Sutherland adroddiad i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ddiwedd mis Mawrth. Darparodd hyn y ddogfennaeth adolygu a ganlyn:

1. Map Llywodraethu
2. Sgerbwd Blaenraglen ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgorau
3. Materion Arfaethedig a Gadwyd yn Ôl ar gyfer y Bwrdd
4. Cylch Gorchwyl diwygiedig arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd
5. Cylch Gorchwyl diwygiedig arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Tâl

Mae disgwyl y bydd cam dau o'u gwaith hefyd a fydd yn adolygu fframwaith polisi'r sefydliad ac yn asesu'r polisïau a etifeddwyd gan y sefydliad a'r rhai newydd hynny sydd wedi'u datblygu ers ei sefydlu. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn addas i'r diben ac yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol a deddfwriaethol cyfredol. Bydd hyn yn galluogi ail-fframio Polisi Llais ar Bolisïau a Gweithdrefnau, sef ei brif bolisi a phroses, sy'n llywio fframwaith polisi'r sefydliad.

O ran cynhyrchion cam 1, mae’r Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd wedi cyfarfod i drafod allbynnau’r adolygiad a chytuno ar ffordd ymlaen arfaethedig. Bydd llawer o'r gwaith mewn ymateb i allbynnau'r adolygiad hefyd yn cefnogi gwaith presennol ac arfaethedig y sefydliad, fel yr amlinellir mewn papurau eraill ar yr agenda hon. Mae’r rhain yn cynnwys meysydd megis Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd, Blaenraglen Waith, gwaith adolygu sy’n cael ei wneud gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gwaith adolygu a arweiniwyd gan y Tîm Arwain o’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, yn dilyn y profiad o’u gweithredu a’u defnyddio dros y flwyddyn gyntaf.

Cynigir bod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn arwain sesiwn ymgysylltu gyda'r Bwrdd i drafod yn benodol allbwn yr adolygiad a chytuno ar y camau nesaf.

Fodd bynnag, mae sawl maes gwaith allweddol yn cael eu datblygu yn unol â'r llinynnau gwaith a nodir uchod. Bydd y rhain yn elwa ar allbynnau adolygiad Eversheds Sutherland. Bydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu hysbysu ymhellach ac yn cymryd rhan yn y gwaith hwn yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

- **Adolygiad o'r Rheolau Sefydlol:** Bydd Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yn adolygu'r Rheolau Sefydlog presennol gan ddefnyddio canlyniadau'r adolygiad. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau yn y strwythur staffio a rolau o fewn y sefydliad i sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu. Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn ystod mis Ebrill 2024 ac yna ymgysylltu â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd.

- **Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog:** Mae'r sefydliad yn cadw ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog dan adolygiad ac mae rhai newidiadau a diwygiadau eisoes wedi'u cynnig. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan y Cynghorydd Llywodraethu Ariannol. Mae'r rhain wedi'u nodi i alluogi gwell gweithrediad ar lefelau gweithredol. Bydd y cynigion ac unrhyw gynigion pellach, yn ôl yr angen, yn cael eu trafod gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w cymeradwyo ym mis Mehefin 2024, cyn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd.

- **Adolygiad o'r Cynllun Dirprwyo a'r Rhestr o Faterion a Gadwyd yn Ôl i'w Cymeradwyo gan y Bwrdd:** Mae gwaith yn y maes hwn wedi bod yn mynd rhagddo ond bydd yn cael ei symud ymlaen yn seiliedig ar allbynnau'r adolygiad. Mae hwn yn ddarn ehangach o waith, y bydd Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd a'r Cynghorydd Llywodraethu Ariannol yn ei ddwyn ymlaen mewn partneriaeth i'w ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin 2024 a bydd hefyd angen cymeradwyaeth y Bwrdd.
- **Datblygu Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd y Bwrdd**: Bydd Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yn arwain gwaith i ddatblygu trefniadau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad ymhellach. Bydd y map llywodraethu a ddarparwyd drwy'r adolygiad yn cael ei ddefnyddio i arwain y gwaith hwn. Mae gan Llais drefniadau cychwynnol yn eu lle, ond bellach mae angen adeiladu ar y rhain a nodi'n glir i'r Bwrdd ffynonellau sicrwydd, sut mae'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion datganedig y sefydliad ac yn adnabod y risgiau i beidio â chyflawni'r amcanion hyn.

  Mae'n bwysig bod y Bwrdd yn chwarae rhan annatod yn y gwaith hwn. Felly, yn ystod mis Ebrill a mis Mai, bydd Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yn ymgysylltu ag Aelodau'r Bwrdd ac yn enwedig aelodau'r Pwyllgor Archwilio a

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Sicrwydd Risg i ddatblygu'r fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd newydd. Mae'r amserlen hon wedi'i nodi er mwyn galluogi'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i dderbyn cadarnhad o'r Fframwaith arfaethedig ym mis Mehefin 2024 yn barod i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.

- **Adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Risg, Polisi a Fframwaith Risg**: Wedi'i gysylltu'n agos â'r gwaith datblygu ar y Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd, mae angen cynnal gweithgarwch adolygu ar ddull delio â risg y sefydliad. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn briodol â'r Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd newydd, ond ei fod hefyd yn cael ei addasu i adlewyrchu'r flwyddyn gyntaf o weithredu.

  Cydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith ar adrodd ar lefel y Tîm Arwain, y Pwyllgorau a'r Bwrdd a bydd basged o adroddiadau risg newydd yn cael eu datblygu i alluogi adrodd priodol ar bob lefel ac i hwyluso ymgysylltu a chraffu ar lefel pwyllgorau a Bwrdd. Bydd diagramau llif risg hefyd yn cael eu datblygu i gynorthwyo gydag uwchgyfeirio, is-gyfeirio a thrin/lliniaru risgiau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â datblygiad y Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd a bydd yn rhedeg i'r un amserlen, fel y nodir uchod.

- **Pwyllgorau'r Bwrdd:** Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd ddau bwyllgor ffurfiol; y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth. Darparodd yr adolygiad Gylch Gorchwyl diwygiedig arfaethedig ar gyfer y pwyllgorau hyn. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn unol â'r gwaith uchod a bydd unrhyw ddiwygiadau i gylch gorchwyl y pwyllgor yn cael eu cynnig a'u dwyn ymlaen i bob pwyllgor i'w hystyried cyn ceisio cymeradwyaeth gan y Bwrdd.
  Bydd y Bwrdd yn cadw'r fframwaith o bwyllgorau dan adolygiad ac yn asesu a oes angen sefydlu pwyllgorau ychwanegol neu a oes angen ychwanegu/diwygiadau i gwmpas unrhyw un o'r pwyllgorau presennol. Bydd cylch gorchwyl diwygiedig y pwyllgorau yn cael ei ystyried yn eu cyfarfodydd nesaf yn barod i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.

- **Blaenraglen waith y Bwrdd**: Mae gwaith yn y maes hwn eisoes wedi'i ystyried gan y Bwrdd ar ddiwedd mis Mawrth ac mae Blaengynllun Gwaith newydd ar gyfer y Bwrdd wedi'i ystyried a'i gyflwyno i'r Bwrdd yn y cyfarfod hwn i'w gymeradwyo.

Cydnabyddir bod yr uchod yn rhaglen waith sylweddol. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn bwysig cael y strwythurau a'r prosesau llywodraethu yn gywir ac yn addas i'r

diben.  Bydd hyn yn galluogi'r sefydliad i weithredu'n hyderus, ond hefyd i ddefnyddio'r rhain fel llwyfan i alluogi'r sefydliad i ganolbwyntio'n briodol ar ei gyfrifoldebau allweddol ar ran pobl Cymru.

Fodd bynnag, nid yw'r gwaith adolygu hwn yn weithgaredd unwaith ac am byth.  Yn dilyn y gwaith adolygu cynhwysfawr, bydd y trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn cael eu hadolygu'n barhaus drwy drefniadau arferol ac adroddiadau a chânt eu hasesu a'u cynghori'n barhaus gan archwilwyr mewnol ac allanol y sefydliad.

Bydd addasiadau priodol yn cael eu gwneud yn y dyfodol yn seiliedig ar asesiadau ein harchwilwyr mewnol ac allanol.  Bydd y Bwrdd a'i bwyllgorau hefyd yn parhau i asesu'n ddeinamig eu heffeithiolrwydd ond bydd hefyd yn ymgymryd â gwaith adolygu blynyddol ffurfiol i gefnogi datganiadau adrodd a datgelu diwedd blwyddyn Llais.

## Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd gytuno ar y meysydd gwaith a'r amserlenni arfaethedig, fel yr amlinellwyd uchod.

Bydd y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yn adolygu'r rhaglen waith yn gyson a bydd unrhyw newidiadau perthnasol neu gynigion pellach yn cael eu cytuno gyda'r Bwrdd.